

**MONA OFFSHORE WIND LTD: CYFEIRNOD YR AROLYGIAETH GYNLLUNIO:  
EN010137**

**HYSBYSIAD YNGHYLCH NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CAIS AM ORCHYMYN  
CYDSYNIAD DATBLYGU**

Cafodd cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ei gyflwyno gan Mona Offshore Wind Ltd (yr "Ymgeisydd") o Adeilad B, Chertsey Road, Sunbury on Thames, UK, TW16 7BP o dan Ddeddf Cynllunio 2008 i'r Ysgrifennydd Gwladol, D/O yr Arolygiaeth Gynllunio ar 22/02/2024, a chafodd ei dderbyn i'w archwilio ar 21/03/2024 ("y Cais").

Hysbysir drwy hyn bod yr Ymgeisydd wedi gwneud cais i ddiwygio'r Cais ar 1 Tachwedd 2024 ("y Cais am Newid"). Bydd y cyfnod sylwadau ar gyfer y Cais am Newid yn rhedeg tan 17:00 ar 3 Rhagfyr 2024. Mae'r hysbysiad hwn yn egluro'r Cais am Newid a sut gallwch chi ymateb.

**Crynodeb o'r Cais**

Mae'n Gais am gydsyniad datblygu i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Fferm Wynt Alltraeth arfaethedig Mona (y "Prosiect") a seilwaith cysylltiedig ar y tir ac ar y môr. Mae'r Prosiect wedi'i leoli ym Môr Iwerddon oddi ar arfordir gogledd Cymru. Ar ei bwyntiau agosaf at y lan, mae ardal yr arâe yn 28.8 km o arfordir gogledd Cymru, 46.9 km o arfordir gogledd-orllewin Lloegr, a 46.6 km o Ynys Manaw. Bydd coridor y ceblau allforio ar y môr tua 46km o hyd a bydd y coridor ceblau allforio ar y tir (gan gynnwys coridor ceblau 400kV) tua 16km o hyd.

Bydd y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu arfaethedig, ymysg pethau eraill, yn awdurdodi'r canlynol:

- Adeiladu a gweithredu hyd at 96 generadur tyrbinau gwynt ar y môr a'u sylfeini;
- Adeiladu hyd at bedwar plattform is-orsaf ar y môr (OSP) a'u sylfeini;
- Adeiladu rhwydwaith o geblau rhyng-arâe o dan y môr sy'n cysylltu'r generaduron tyrbinau gwynt a rhwydwaith o geblau rhyng-gysylltu sy'n cysylltu'r plattformau is-orsaf ar y môr;
- Gosod hyd at bedair cylched ceblau allforio o dan y môr i drosglwyddo'r trydan a gynhyrchir gan y generaduron tyrbinau gwynt i'r lan. Mae coridor ceblau allforio ar y môr y Prosiect yn ymestyn tua'r de-ddwyrain o ardal yr arâe i'r lanfa arfaethedig yn Llanddulas yng Nghonwy;
- Adeiladu hyd at bedwar porth cysylltu trosiannol ar y lanfa sy'n cysylltu'r ceblau ar y môr â'r ceblau ar y tir;
- Gosod hyd at bedair cylched ceblau allforio tanddaearol ar y tir sy'n cysylltu o'r pyrrh cysylltu trosiannol ar y lanfa i is-orsaf ar y tir y prosiect;
- Adeiladu a gweithredu is-orsaf newydd ar y tir ar gyfer y prosiect i'r de o Barc Busnes Llanelwy a Ffordd Glascoed yn Sir Ddinbych;
- Gosod hyd at ddwy gylched ceblau allforio tanddaearol ar y tir sy'n cysylltu'r is-orsaf arfaethedig ar y tir ag is-orsaf y National Grid ym Modelwyddan er mwyn gallu trosglwyddo'r pŵer i'r National Grid; a
- Gwaith i gysylltu'r Prosiect ag is-orsaf National Grid ym Modelwyddan yn Sir Ddinbych.

Byddai'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu hefyd yn awdurdodi caffael tir yn orfodol, buddiannau mewn tir a hawliau dros dir, a'r pwerau i ddefnyddio tir yn barhaol a dros dro ar gyfer adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu fferm wynt ar y môr.

**Crynodeb o'r Cais am Newid**

Mae'r Ymgeisydd wedi parhau i fireinio ei gynigion drwy waith dylunio manwl, cynnar a thrafodaethau â rhanddeiliaid. Mae hyn wedi arwain at yr angen am newidiadau, ac mae rhai ohonynt yn golygu bod angen cynnwys tir ychwanegol o fewn terfynau'r Gorchymyn arfaethedig, i'w ddefnyddio dros dro yn ystod y gwaith adeiladu yn unig. Mae'r holl newidiadau arfaethedig wedi'u lleoli o amgylch safle'r is-orsaf arfaethedig ar y tir. Dyma grynodedeb o'r newidiadau a'r disgrifiadau o'r tir y bydd caffael gorfodol yn effeithio arno o ganlyniad i'r Cais am Newid:

**Newid 1(a a b):** Diwygio terfynau'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys llwybr mynediad presennol ar gyfer mynediad dros dro ar gyfer y gwaith adeiladu yn ystod y gwaith o baratoi'r safle ar y tir, a darn o dir i'r gorllewin o'r is-orsaf ar y tir ar gyfer mynediad dros dro ar gyfer y gwaith adeiladu yn ystod gwaith paratoi'r safle ar y tir ac adeiladu'r is-orsaf ar y tir a'r gwaith o'i hamgylch. Mae hyn yn golygu cynnwys dau blot newydd o dir (plotiau 11-197a ac 11-197b) a fyddai'n ddarostyngedig i bwerau meddiannu dros dro yn unig.

**Newid 2(a a b):** Diwygio a lledu ffordd fynediad ar gyfer gwaith adeiladu'r is-orsaf ar y tir i gynorthwyo symudiadau Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin, gan gynnwys newid terfynau'r Gorchymyn arfaethedig. Mae hyn yn golygu cynnwys pedwar plot newydd o dir (plotiau 11-229a, 11-230a, 11-233a ac 11-234a) a fyddai'n ddarostyngedig i bwerau meddiannu dros dro yn unig. Mae hefyd angen darn bach ychwanegol o dir ar gyfer ffordd fynediad ar gyfer gwaith adeiladu'r is-orsaf ar y tir sydd o fewn terfynau presennol y Gorchymyn ym mhlod 11-220.

**Newid 3:** Diwygio terfynau'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys tir ychwanegol wrth ymyl ymagoriad mynediad adeiladu'r is-orsaf ar y tir i ddarparu ar gyfer basn arafu draenio'r safle adeiladu dros dro. Mae hyn yn golygu cynnwys dau blot newydd o dir (plotiau 11-233b ac 11-234b) a fyddai'n ddarostyngedig i bwerau meddiannu dros dro yn unig.

**Newid 4:** Diwygio ac ehangu terfynau'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys tir sydd ei angen i ddarparu ar gyfer ardal o lawr caled yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn gallu sefydlu'r ffordd fynediad barhaol. Mae hyn yn golygu cynnwys un plot newydd o dir (plot 11-221a) a fyddai'n ddarostyngedig i bwerau meddiannu dros dro yn unig.

Mae'r diwygiadau arfaethedig hyn wedi cael eu hymgorffori yng Nghynllun Tir y Cais am Newid a Llyfr Gorchwyl y Cais am Newid, ac maent i'w gweld ynddynt. Mae Datganiad o Resymau'r Cais am Newid a Datganiad Cyllido'r Cais am Newid hefyd wedi cael eu cyflwyno i gefnogi'r Cais am Newid.

## Gweld y Cais am Newid

Mae Adroddiad y Cais am Newid, Cynllun Gwaith y Cais am Newid, Cynllun Tir y Cais am Newid a Llyfr Gorchwyl y Cais am Newid a rhagor o wybodaeth am y Cais am Newid ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho yn rhad ac am ddim oddi ar wefan prosiect Mona <https://www.morganandmona.com/cym/>

Bydd dogfennau'r Cais am Newid ar gael i'w gweld ar-lein tan o leiaf 3 Rhagfyr 2024.

Gallwch chi hefyd gael gafael ar y dogfennau yn rhad ac am ddim yn y lleoliadau isod, tan o leiaf 3 Rhagfyr 2024. Cysylltwch â'r lleoliadau yn uniongyrchol i gadarnhau beth yw eu horiau agor ac unrhyw ofynion o ran archebu neu gofrestru a allai fod eu hangen i gael gafael ar y dogfennau'n ddigidol ar y cyfrifiaduron sydd ar gael yn y lleoliadau priodol.

Lleoliad	Amseroedd Agor	Rhif cyswllt
----------	----------------	--------------

Llyfrgell Llandudno, Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2RP	Llun-Mercher a Gwener: 9- 5.30pm, Iau: 10-7pm, Sadwrn: 9:30-3pm	01492 574010
Llyfrgell, Amgueddfa a Chanolfan Gelfyddydau y Rhyl, Stryd yr Eglwys, y Rhyl LL18 3AA	Llun: 9:30-6pm, Mawrth- Gwener: 9:30-5pm, Sadwrn: 09:30-12.30pm	01745 353814

Mae copi o adroddiad y Cais am Newid a'r gyfres lawn o ddogfennau ategol ar gael ar ffurf copi caled ar gais am gost o £250. Ar gyfer unrhyw geisiadau am ddogfennau penodol, cysylltwch â'r Ymgeisydd (gan ddefnyddio manylion cyswllt tîm y Prosiect uchod) a fydd yn darparu'r gost.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y Cais am Newid, neu os ydych chi'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am y Cais am Newid, ewch i wefan prosiect Mona yma: <https://www.morganandmona.com/cym/> neu cysylltwch â thîm y Prosiect ar 0800 860 6263 neu e-bostio [info@monaoffshorewind.com](mailto:info@monaoffshorewind.com).

### **Sut mae ymateb i'r Cais am Newid**

**Sylwch fod rhaid i'r holl sylwadau ddod i law erbyn 17:00 ar 3 Rhagfyr 2024.**

**Gellir cyflwyno adborth drwy anfon e-bost: [info@monaoffshorewind.com](mailto:info@monaoffshorewind.com) neu yn ysgrifenedig (RHADBOST MONA).**

Bydd unrhyw sylwadau neu ymatebion yn cael eu rhannu gyda'r Arolygiaeth Gynllunio. Sylwch y bydd yr holl ymatebion a gyflwynir yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio a byddant yn rhwym wrth ei pholisi preifatrwydd, sydd ar gael ar-lein yma: <https://www.gov.uk/government/publications/planning-inspectorate-privacy-notice>